

PWYLLGOR SAFONAU

19 Rhagfyr 2018

Yn bresennol: Mrs J Wainwright (Cadeirydd)

Mr A Archer, Mr John Daniels, Cynghorydd R Owens, Cynghorydd P Morgan a Mrs V Tomlinson

(Swyddfeydd APC, Parc Llanion, Doc Penfro: 10.00am – 11.00am)

1. Ymddiheuriadau am absenoldeb

Doedd yna ddim ymddiheuriadau am absenoldeb.

2. Datgelu diddordeb

Roedd yna ddatgeliad o ddi-ddordeb gan Mr A Archer ynghylch adroddiadau 03/18, 04/18 a 05/18 (*Cofnodion 5, 6 a 7 isod cyf*).

3. Cofnodion

Cafodd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Mai 2018 eu cyflwyno i'w cadarnhau a'u llofnodi.

PENDERFYNWYD cadarnhau a llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Mai 2018.

4. Adroddiad Blynyddol y Swyddog Monitro 2017/18

Adroddodd y Swyddog Monitro na chafodd yr un gŵyn ei chyfeirio ato ynghylch materion o ymddygiad yn ystod y cyfnod hwn. Holodd yr Aelodau a oedd y materion y rhoddwyd goddefebau yn eu cylch i ddau Aelod, y cyfeiriwyd atyn nhw yn ei adroddiad, wedi'i ddatrys erbyn hyn. Atebodd y swyddogion trwy ddweud bod un o'r materion yn dal ar y gweill ond ymddengys fod y mater arall wedi ei ddatrys.

NODWYD.

5. Adroddiad Blynyddol Panel Dyfarnu Cymru am 2016-2017

Adroddwyd bod y Panel Dyfarnu ar gyfer Cymru (PDC) yn driwlynlys annibynnol a gafodd ei sefydlu i ddyfarnu ynghylch tor-amodau honedig yn erbyn Cod Ymddygiad statudol awdurdod gan aelodau etholedig a chyfetholedig oddi fewn i Sir Gymreig, Bwrdeistref Sirol a Chynghorau Cymuned, Awdurdodau Tân a Pharciau Cenedlaethol. Ar ddyddiad y cyfarfod doedd adroddiad 2017-18 ddim eto wedi'i gyhoeddi ac ymddengys nad oedd yr un tribiwnlys yn yr arfaeth.

O ran Adroddiad Blynyddol 2016-17, ac roedd yna ddolen hypergyswllt wedi'i ddarparu, roedd y Panel wedi ystyried pedwar mater - dau fater wedi'u cyfeirio wrth Ombwdsmon Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru a dwy apêl yn erbyn dyfarniadau Pwyllgorau Safonau.



NODWYD.

6. Yr Ombwdsmon Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru

Adroddwyd bod gan Ombwdsmon Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru (OGCC) ddwy swyddogaeth benodol. Y cyntaf i ystyried cwynion am ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru; yr ail swyddogaeth oedd ystyried cwynion bod Aelodau o awdurdodau lleol wedi torri'r Cod Ymddygiad. Yr ail swyddogaeth oedd yn berthnasol i'r Pwyllgor.

Roedd Adroddiad Blynyddol yr Ombwdsmon 2017-18 yn manylu ynghylch 270 o gwynion Cod Ymddygiad, ac roedd dros eu hanner yn ymwneud â Chynghorau Cymuned. Fodd bynnag roedd y mwyaf o'r cwynion (213) wedi dod i ben yn dilyn "ystyriaeth gychwynnol". Nododd y Swyddog Monitro bod yr OGCC wedi defnyddio prawf tystiolaeth a diddordeb cyhoeddus a dim ond wedi delio â'r cwynion mwyaf difrifol; byddai gan amlaf dim ond yn delio â'r cwynion hynny a oedd eisoes wedi bod trwy broses achwyn yr awdurdod lleol perthnasol. Tra roedd yna 10 achwyniad wedi'u cyfeirio mewn cyswllt â Pharciau Cenedlaethol yng Nghymru doedd yr un yn ymwneud ag APCP ac roedd yr Aelodau o'r farn bod hynny'n adlewyrchiad da o'r Parc Cenedlaethol hwn. Fodd bynnag, nodwyd fod pob un o'r achwyniadau hyn naill ai y tu hwnt i awdurdodaeth, yn gynamserol neu wedi dod i ben wedi ystyriaeth gychwynnol.

Roedd yr adroddiad hefyd yn nodi bod y Mesur Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus ar hyn o bryd yn cael ei ystyried gan y Cynulliad Cymreig. Byddai hyn, ymhlith materion eraill, yn ymestyn grym yr OGCC i ganiatáu iddo gychwyn ei ymholiadau ei hun heb fod yr un dim wedi'i gyfeirio ato, ac yn cynnwys darpariaeth statudol orfodol o'r broses delio â chwyn. Fodd bynnag, ymddengys bod hyn yn bennaf ar gyfer achosion o gamweinyddu ac anfodlonrwydd cyhoeddus o ddarpariaeth gwasanaeth yn hytrach nag ymddygiad Aelodau.

NODWYD.

7. Cynhadledd Safonau Cymru

Adroddodd y Swyddog Monitro ei fod ef ag Aelod arall o'r Pwyllgor wedi mynychu'r gynhadledd a gynhaliwyd yn Aberystwyth ar y 14^{eg} o Fedi 2018, ac roedd wedi profi'n gyfle rhwydweithio diddorol a defnyddiol.

Roedd y gynhadledd wedi hyrwyddo llyfryn canllaw newydd ar sancsiynau a'r agwedd a fabwysiedir gan Banel Dyfarnu Cymru mewn Tribiwnlys. Roedd hwn wedi'i ddylunio fel "dogfen fyw" y gellid ei newid pe bai angen. Canmolodd y Swyddog Monitro'r ddogfen am ei fod o'r farn fod yr agwedd a amlinellir yn un a ellir ei defnyddio mewn unrhyw achosion y bydd yn ofynnol i'r Pwyllgor Safonau ddelio â nhw. Dosbarthodd gopïau o'r canllaw a gofynnodd a fyddai'r Pwyllgor yn ei



chanfod yn ddefnyddiol pe bai'n trefnu sesiwn hyfforddiant yn seiliedig ar un o'r achosion astudiaeth ynddo ac fe gytunon nhw y gallai sesiwn o'r fath brofi'n dempled gwerthfawr pe bai'n ofynnol iddyn nhw ymchwilio i ymddygiad yn y dyfodol.

NODWYD.

8. Canllaw Cyfryngau Cymdeithasol i Gynghorwyr

Adroddwyd bod Cymdeithas Awdurdodau Lleol Cymru yn ddiweddar wedi cyhoeddi'r canllaw a nodir uchod a thynnwyd sylw aelodau'r Pwyllgor at hyn er gwybodaeth, am ei bod yn ddigon posib y gallai cwyn o ganlyniad i rywbeth fyddai wedi'i ddweud ar Gyfrwng Cymdeithasol ddod ger eu bron i'w ystyried. Teimlai'r Swyddog Monitro y dylai'r holl Gynghorwyr gael golwg o'r canllaw ac roedd yn fwriad ganddo i anfon copi i holl Aelodau Awdurdod Parc Cenedlaethol Penfro.

Teimlai aelodau'r Pwyllgor tra bo hyn yn broblem o fewn Awdurdodau eraill, doedd y defnydd o gyfryngau cymdeithasol ddim yn helaeth ymhlith Aelodau'r Awdurdod hwn. Fodd bynnag, roedden nhw'n cydnabod y gallai'r platfform fod yn niweidiol i unigolion a sefydliadau ac roedden nhw'n teimlo y dylid cymryd sylw o'r canllaw defnyddiol, eglur a hygyrch. Roedden nhw felly'n argymhell anfon copi o'r adroddiad i Aelodau'r Awdurdod. Ychwanegodd y Prif Weithredwr bod yr Aelodau wrth gael eu cynefino yn cael eu hatgoffa mai nhw yw llais yr Awdurdod ac y dylid gwirio datganiadau cyhoeddus gyda swyddogion ymlaen llaw.

PENDERFYNWYD y dylai'r Canllaw Cyfryngau Cymdeithasol ar gyfer Cynghorwyr a baratowyd gan Gymdeithas Awdurdodau Lleol Cymru gael ei ddosbarthu i Aelodau o Awdurdod y Parc Cenedlaethol.

